

Crynodeb o'r drefn lofnodi

Cam un – cadarnhau pwy yw'r etholwr

- cyfarch yr etholwr
- gofyn iddo gadarnhau ei enw a'i gyfeiriad
- dod o hyd i'r etholwr ar y gofrestr a gwneud yn siwr ei fod yn gymwys i lofnodi'r ddeiseb hon.

Cam dau – gwirio prawf adnabod ffotograffig yr etholwr

- gofyn i'r etholwr am ei brawf adnabod ffotograffig.
- gwirio a gaiff y prawf adnabod a ddarperir ei gynnwys ar y rhestr o brofion adnabod ffotograffig derbyniol.
- gwirio a yw'r prawf adnabod a ddarperir yn cynnwys llun sy'n ymdebygu i'r etholwr.
- gwirio a yw'r enw sydd wedi'i gynnwys ar y prawf adnabod ffotograffig yn cyfateb i gofnod yr etholwr ar y gofrestr.
- gwirio a yw'r prawf adnabod ffotograffig a ddarperir yn ymddangos yn ddilys, a heb fod yn ffug.
- dychwelyd y prawf adnabod ffotograffig i'r etholwr.

Cam tri – marcio cofrestr y ddeiseb a chwblhau gwaith papur prawf adnabod y pleidleisiwr

- marcio'r gofrestr yn erbyn y rhif etholwr (ond nid drwyddo) drwy osod llinell syth yn erbyn cofnod y llofnodwr ar y gofrestr.
- gwirio a wrthodwyd papur llofnodi yn flaenorol i'r etholwr oherwydd problemau â'i brawf adnabod a diweddarau gwaith papur y Rhestr o'r Taflenni Llofnodi a Wrthodwyd fel sy'n ofynnol.

Cam pedwar – rhoi'r papur llofnodi

- ysgrifennu'r rhif etholwr (gan gynnwys llythyren/llythrennau cyfeirio'r dosbarth etholiadol os nad yw wedi'i argraffu/nad ydynt wedi'u rhag-argraffu) ar y rhestr rhifau cyfatebol wrth ymyl rhif y papur llofnodi y byddwch yn ei roi.
- gwneud yn siŵr bod y papur llofnodi yn cynnwys marc swyddogol wedi'i rag-argraffu (e.e. cod bar neu ddyfnod).
- plygu'r ddalen lofnodi, ac yna ei rhoi i'r llofnodwr heb ei phlygu

Cam pump – llofnodi

- ar ôl derbyn y ddalen lofnodi, bydd angen i'r etholwr benderfynu p'un a fydd am lofnodi'r ddalen a'i peidio
- mae'r etholwr yn marcio'r papur llofnodi ym mhreifatrwydd y bwth llofnodi neu ar ddesg y clerc
- cyn i'r etholwr roi'r papur llofnodi yn y blwch pleidleisio, dylai blygu'r papur llofnod a dylai ddangos rhif y papur llofnodi a'r marc adnabod unigryw ar gefn y papur llofnodi i'r Clerc Deiseb
- dywedwch 'hwyl fawr' a diolch wrth yr etholwr wrth iddo adael

Cofiwch ddilyn pob cam o'r broses yn ofalus neu efallai y byddwch yn difreinio'r llofnodwr heb ei blygu drwy amryfusedd.